ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhannu data, caniatâd a defnydd derbyniol o Hwb – Canllawiau ar gyfer ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion

Ebrill 2018

OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG34822 ISBN digidol 978 1 78937 118 5

Cynnwys

Cefndir **2**

Gwasanaethau ychwanegol **3**

Argymhellion **4**

Atodiad A: Ffurflen ganiatâd i alluogi dysgwyr gael mynediad at wasanaethau ychwanegol – templed **5**

Atodiad B: Cytundeb defnydd derbyniol ar gyfer Hwb – templed **7**

Atodiad C: Darparwr Hunaniaeth Addysg Cymru Gyfan - diagram llif data **8**

Cefndir

Yn 2018, newidiodd Llywodraeth Cymru y ffordd yr oedd ysgolion yn darparu mynediad i borth addysgol Hwb a'r amgylchedd dysgu a reolir (Platfform Hwb) ar gyfer eu staff a'u dysgwyr.

O fis Medi 2018, bydd pob dysgwr mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn gorfod cael manylion mewngofnodi diogel i Blatfform Hwb. O'r dyddiad hwnnw ymlaen, bydd asesiadau personol ar-lein yn cael eu cyflwyno'n raddol dros dair blynedd yn lle'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol papur, ac mae'n rhaid cwblhau rhai asesiadau penodol ar-lein ar Blatfform Hwb.

Er mwyn i ddysgwyr a staff gael manylion mewngofnodi diogel i Blatfform Hwb, bydd yn rhaid i ysgolion rannu gwybodaeth bersonol amdanynt â Llywodraeth Cymru. Gwneir hyn dryw'r gwasanaeth Darparwr Hunaniaeth Addysg Cymru.

Er mwyn hwyluso'r broses o rannu data personol â Llywodraeth Cymru, gofynnir i benaethiaid neu aelodau awdurdodedig o Uwch Dîm Arwain yr ysgol adolygu a derbyn y telerau yng nghytundeb rhannu data Hwb (https://hwb.gov.wales/dsa).

Gwasanaethau ychwanegol

Mae'n rhaid i bob dysgwr gael manylion mewngofnodi diogel ar gyfer Platfform Hwb. Hefyd, bydd Platfform Hwb yn parhau i gynnig gwasanaethau ychwanegol i'r dysgwyr hynny sydd wedi dweud eu bod yn fodlon eu derbyn (neu os yw'r gwasanaeth wedi cael caniatâd rhieni ar eu rhan). Mae rhagor o fanylion am y gwasanaethau ychwanegol ar gael yn y templed ffurflen ganiatâd (gweler Atodiad A).

Rydym yn gofyn i ysgolion ofyn am ganiatâd defnyddwyr i dderbyn y gwasanaethau ychwanegol hynny. Atodir templed o ffurflen ganiatâd â'r cytundeb rhannu data. Pan fyddwch yn llwytho gwybodaeth i fyny am ddefnyddwyr drwy gyfrwng yr offer darparu, bydd gofyn i chi ddweud wrthym a yw'r unigolyn wedi rhoi caniatâd i dderbyn y gwasanaethau ychwanegol drwy Borth Rheoli Addysg Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am ffurfweddiad y gwasanaethau ychwanegol sydd ar gael drwy Hwb, ewch i'r adran Cymorth a chefnogaeth.

Argymhellion

Argymhellir bod holl ddefnyddwyr platfform Hwb (staff addysgol a dysgwyr) yn darllen ac yn llofnodi dogfen defnydd derbyniol briodol (gweler Atodiad B). Templed yw'r ddogfen hyn ac mae modd eu diwygio er mwyn i ysgolion unigol eu defnyddio. Gall fod yn briodol i athrawon a dysgwyr greu eu polisïau eu hunain ar gyfer defnyddio Hwb, yn seiliedig ar y gweithgareddau hyn a'r templed sy'n cael eu darparu.

Atodiad A: Ffurflen ganiatâd i alluogi dysgwyr gael mynediad at wasanaethau ychwanegol – templed

Ffurflen ganiatâd gwasanaethau ychwanegol Hwb

Mae platfform Hwb yn rhoi mynediad i'r holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru at ystod eang o offer ac adnoddau digidol, dwyieithog sy'n cael eu hariannu'n ganolog, i gefnogi'r broses o drawsnewid arferion yn yr ystafell ddosbarth yn ddigidol. Llywodraeth Cymru sy'n rheoli ac yn gweithredu platfform Hwb.

Mae'n rhaid i'r holl ddysgwyr mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru gael manylion mewngofnodi diogel ar gyfer platfform Hwb. Mae hyn oherwydd y bydd y profion darllen a rhifedd gorfodol, sy'n cael eu gwneud ar bapur ar hyn o bryd, yn symud ar-lein, a bydd yn rhaid i bob dysgwr eu cwblhau ar y platfform. Er mwyn rhoi manylion mewngofnodi diogel [i chi/i'ch plentyn], bydd yr ysgol yn anfon gwybodaeth sylfaenol at Lywodraeth Cymru. Bydd y manylion mewngofnodi yn caniatáu [i chi/i'ch plentyn] gwblhau'r asesiadau gorfodol ar-lein, sy'n cael eu galw'n 'asesiadau personol'.

I gael rhagor o wybodaeth am blatfform Hwb a sut mae gwybodaeth [amdanoch chi/am eich plentyn] yn cael ei defnyddio, ewch i https://hwb.gov.wales/privacy.

I gael rhagor o wybodaeth am yr asesiadau personol ar-lein, ewch i http://learning.gov.wales/resources/collections/national-reading-and-numeracy-tests?lang=cy&collection-2

Gwasanaethau ychwanegol

Os byddwch chi'n cytuno i hynny, gall Llywodraeth Cymru roi mynediad [i chi/i'ch plentyn] at amrywiaeth o wasanaethau ychwanegol sy'n cael eu darparu gan sefydliadau eraill, drwy Hwb. Mae'r rhain yn cynnwys amgylcheddau dysgu ar-lein fel Dosbarthiadau Hwb, Microsoft Office 365, Google for Education, ac offer ac adnoddau addysgol perthnasol eraill. Mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y gwasanaethau ychwanegol hyn ar gael [i'ch helpu chi/i helpu'ch plentyn] i gael mynediad at adnoddau addysgol. Mae'r gwasanaethau ychwanegol hyn yn cael eu hariannu'n ganolog, ac nid yw'n costio i chi na'ch ysgol gael mynediad atynt na'u defnyddio.

Dim ond os byddwch chi'n llofnodi'r ffurflen isod i ddangos eich bod yn cytuno y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y cewch fynediad at y gwasanaethau ychwanegol hyn.

Eich cytundeb

Os byddwch yn cytuno:

- byddwn yn dweud wrth Lywodraeth Cymru am sicrhau mynediad at y gwasanaethau ychwanegol
- bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu gwybodaeth [amdanoch chi/am eich plentyn] â'i darparwyr gwasanaethau, gan gynnwys Microsoft a Google Education, er mwyn gallu sicrhau mynediad at y gwasanaethau ychwanegol.

Os na fyddwch yn cytuno, byddwn yn dal i rannu gwybodaeth [amdanoch chi/am eich plentyn] â Llywodraeth Cymru er mwyn sefydlu manylion mewngofnodi diogel ar gyfer platfform Hwb, ond ni [fyddwch chi/fydd eich plentyn] yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau ychwanegol.

Os ydych yn dymuno tynnu'ch caniatâd yn ôl, cysylltwch â'r pennaeth yn [eich ysgol/ sgol eich plentyn].

Llofnod

A fyddech cystal â llofnodi'r ffurflen hon a nodi'r dyddiad os ydych chi'n cytuno â'r uchod.

Llofnod .....

Enw .....

Dyddiad .....

Atodiad B: Cytundeb defnydd derbyniol ar gyfer Hwb – templed

Cofiwch, dylai fod diben addysgol i unrhyw beth rydych yn ei wneud ar Hwb. Ni ddylech ymdrin ag unrhyw rai o'ch gweithgareddau fel rhai preifat neu gyfrinachol.

- Byddwch yn fodel rôl cadarnhaol o ran sut rydych yn defnyddio technolegau digidol, gan gynnwys Hwb.
- Cadwch eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair yn ddiogel. Chi sy'n gyfrifol am unrhyw beth sy'n digwydd o dan eich cyfrif. Rhowch wybod i'ch gweinyddwr Hwb os ydych yn amau bod eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair wedi'u cyfaddawdu.
- Os byddwch yn rhannu dolenni allanol yn Hwb, rydych yn barnu bod cynnwys y wefan allanol yn briodol i oedran a bod diben addysgol iddo, e.e. YouTube.
- Ni chewch gyrchu, rhannu na rhoi deunydd sy'n torri hawliau statudol perchnogion hawlfreintiau ar Hwb.
- Cadwch gymuned yr ysgol yn ddiogel drwy roi gwybod am unrhyw beth a allai achosi gofid neu niwed i chi eich hun, athrawon eraill neu ddysgwyr yn yr ysgol. Disgwylir i chi ddangos agwedd broffesiynol a pharch tuag at ddysgwyr a'u teuluoedd yn ogystal â chydweithwyr a'r ysgol pan fyddwch chi ar-lein.
- Mae creu neu drosglwyddo unrhyw ddelweddau, data neu unrhyw ddeunydd arall sy'n sarhaus, yn aflednais neu'n anweddus wedi'i wahardd. Caiff yr awdurdodau wybod am unrhyw gynnwys sy'n ymwneud â gweithgareddau anghyfreithiol neu sy'n cefnogi gweithgareddau o'r fath.
- Rhaid osgoi defnyddio eich blwch negeseuon e-bost a storfa gwmwl at ddibenion personol. Caiff negeseuon e-bost eu monitro.
- Cydymffurfiwch â thelerau ac amodau defnyddio Hwb.
- Cofiwch gadw gopi lleol arall o'r gwaith hanfodol rydych yn ei storio yn y cwmwl bob amser.

Gallai defnydd annerbyniol yn Hwb (fel yr amlinellir uchod, ond heb ei gyfyngu i hynny'n unig) arwain at gamau'n cael eu cymryd yn unol â Pholisi Disgyblu eich sefydliad.

Dilëwch fel y bo'n briodol.

Rwyf/Nid wyf yn cytuno â'r telerau defnyddio a amlinellir uchod.

Enw'r defnyddiwr: ENW'R DEFNYDDIWR Dyddiad: DD / MM / BB

Llofnod: LLOFNOD

Atodiad C: Darparwr Hunaniaeth Addysg Cymru Gyfan – diagram llif data